GWYBOD BETH SY'N BOD.

Ca'l llond bola ar y tywydd,
Mas o 'ma am diroedd newydd.
Falle fydd 'na rhywle gwell,
Does 'na unman sy'n rhy bell.
Pobol newydd yn y brynie,
Ma nhw'n sicr iawn o'u hawlie.
Acenion newydd ar y strydoedd,
Canwn groeso yn iaith y nefoedd.

Siop y fyddin wedi agor,
Cynig gyrfa dda a rhagor.
Pethe'n ddieirth imi fwy
Dechre ame pwy yr wy.
Fu 'na lawer mwy yn deall,
Pam oedd angen un fach arall,
Ofan gofyn am gymwynas,
Pethe bach sy'n neud fi'n ddiflas.

O dwy'n gweld; deall nawr,
(Dwy'n) gwybod be sy'n bod, gen i syniad da,
Ymunwn gyda'n ffrinds, gadel be sy 'ma,
Gwn i ble i fynd, dalwn y trên nesa,
Gwn i ble i fynd, (sdim) angen esbonio mwy.

Wedi gweld yr oll o'r blaen,
Geiriau llym ar dafod main.
Geiriau annwyl ar y wefus,
Siarad mawr sy'n neud fi'n nerfus.
Amser nawr yn mynd sha nôl,
Does dim llawer mwy ar ôl.
Amsere da, amsere caled,
Anghof fyddant yn aur y machlud.

© Geraint Griffiths 2000